

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon 1996-2002

Crynodeb o ganfyddiadau Estyn
ar gyfer
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru



Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales



BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

1.	Cyflwyniad	1
2.	Safonau	1
3.	Ansawdd yr hyfforddi a'r asesu	2
4.	Ansawdd y staffio, yr adnoddau a'r adeiladau	4
5.	Dethol ac ansawdd hyfforddeion a dderbynnir	5
6.	Rheoli ansawdd	5
7.	Y Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r cylch arolygu newydd	6
8.	Ymweliadau cyffredinol arolygwyr	7
9.	Argymhellion	9

1. Cyflwyniad

Yn ystod y cyfnod 1996 i 2001, cynhaliwyd arolygiadau llawn o bob un o'r wyth sefydliad addysg uwch, sydd ar y cyd â'u hysgolion partneriaid, yn darparu hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) yng Nghymru. Bu nifer o ddatblygiadau pwysig yn ystod y cylch arolygu diwethaf hwn. Gwelodd y cyfnod gyflwyno Cylchlythyr Y Swyddfa Gymreig 13/98 ac o ganlyniad, diwygiwyd y Fframwaith ar gyfer Asesu Ansawdd a Safonau mewn HCA cyn yr arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod 1998-1999. Trwy gydol y cylch hwn, roedd pob cwrs HCA yn ymwneud â phartneriaethau rhwng Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) ac ysgolion.

Cynhaliwyd saith arolwg hefyd a oedd yn canolbwyntio ar hyfforddiant ar gyfer addysg gorfforol, arfer dda mewn mentora cynradd ac uwchradd, TGCh mewn cyrsiau cynradd ac uwchradd, rhagoriaeth ac arloesedd mewn HCA a datblygiad proffesiynol cynnar athrawon newydd gymhwyso.

Bob blwyddyn, ymwelodd arolygwyr cyffredinol â phob sefydliad addysg uwch nad oeddent yn cael arolygiad llawn. Diben yr ymweliadau hyn oedd monitro'r cynnydd a wnaed gan y darparwr a dilyn hynt a helynt newidiadau, datblygiadau a mentrau newydd. Casglodd Arolygwyr Cyffredinol dystiolaeth am faterion pwysig sy'n dod i'r amlwg yn y sector.

Cyfrannodd dystiolaeth o'r uchod at Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ac at greu crynodeb o ganfyddiadau ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

2. Safonau

Yn ystod y cylch cyfan, roedd addysgu hyfforddeion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn dda neu'n well mewn tua 55% o wersi ac yn foddhaol mewn 40% pellach. Ni ostyngodd cyfanswm yr addysgu anfoddhaol lawer, ac roedd cyfanswm yr addysgu da yn amrywio llawer rhwng cyrsiau, hyd yn oed o fewn yr un coleg. Ar y cyfan, mae addysgu hyfforddeion yn debyg iawn o ran ansawdd i addysgu athrawon cymwys dros yr un cyfnod. Bydd hyfforddeion yn cyflawni hyn gyda chynhaliadaeth mentoriaid a thiworiaid. Mae safon addysgu hyfforddeion cyfrwng Cymraeg yn debyg i'w haddysgu cyfrwng Saesneg. Nid yw cryfderau a diffygion hyfforddeion wedi newid rhyw lawer:

Cryfderau

- mae gan ran fwyaf yr hyfforddeion cynradd wybodaeth dda o'r pynciau craidd Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae ganddynt fedrau TGCh personol da ac maent yn rhoi sylw priodol i lythrennedd a rhifedd yn eu cynllunio a'u haddysgu;

- mae rhan fwyaf yr hyfforddeion cynradd ac uwchradd yn rheoli ac yn trefnu dosbarthiadau'n dda ac yn defnyddio ystod effeithiol o strategaethau addysgu addas; ac
- mae rhan fwyaf yr hyfforddeion yn asesu ac yn cofnodi cyflawniadau disgyblion yn briodol.

Diffygion

- nid yw arfarniadau hyfforddeion yn canolbwyntio ddigon ar yr hyn mae'r disgyblion wedi'i ddysgu;
- ychydig iawn o hyfforddeion sy'n defnyddio'u hasesiad o waith disgyblion i helpu cynllunio'u gwersi neu i osod targedau i ddisgyblion;
- ychydig iawn sy'n gallu defnyddio'u medrau TGCh yn effeithiol i helpu disgyblion i ddysgu;
- mae gan hyfforddeion cynradd fylchau yn eu dealltwriaeth o un o'r pynciau sylfaen o leiaf; ac
- nid ydynt yn cynllunio'n ddigon gofalus i addysgu'r medrau allweddol i'r disgyblion neu ofynion cyffredin y cwricwlwm cenedlaethol, megis Y Cwricwlwm Cymreig.

Ychydig dros 90% o'r hyfforddeion sy'n cwblhau eu cwrs sy'n cael cymhwyster SAC. Mae'r rheiny nad ydynt yn addas ar gyfer addysgu yn cael eu cynghori'n briodol i adael cyrsiau.

3. Ansawdd yr hyfforddi a'r asesu

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Mae ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant yn y coleg yn dda ar y cyfan ar gyrsiau cynradd ac uwchradd. Mae rhan fwyaf y sesiynau hyfforddiant wedi'u cynllunio'n dda, yn darparu modelau addysgu da ac yn cynnwys profiadau hyfforddeion yn y dosbarth yn dda. Mae cyrsiau uwchradd yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu cymhwysio pwnc TGCh. Fodd bynnag, ni roddir digon o ffocws ar helpu hyfforddeion i ddefnyddio TGCh i ddatblygu medrau allweddol disgyblion neu wrth reoli'r adnoddau TGCh a geir mewn nifer o ddosbarthiadau.

Mae datblygiad gwybodaeth bwnc hyfforddeion yn gryfder yn mwyafrif y cyrsiau. Mae'r hyfforddiant wedi'i gynllunio'n dda, ac mae tiwtoriaid yn cynnig cynhaliadau dda trwy becynnau astudio defnyddiol, ac mewn rhai cyrsiau, cynnig sesiynau cynhaliadau ychwanegol. Mae mwyafrif y cyrsiau'n cynnig ystod o gyrsiau 'rhagflas' mewn ystod o bynciau di-graidd. Ychwanegir at y cyrsiau hyn yn effeithiol ar y cyfan gan dasgau yn yr ysgol sy'n cysylltu gwaith yn yr ysgol a hyfforddiant yn y coleg yn dda.

Gwelwyd gwelliannau hefyd yn ansawdd yr hyfforddiant yn yr ysgol. Ar y cyfan, mae hyn yn well pan fydd darparwyr a'u hysgolion partneriaid yn gweithio'n agos â'i gilydd. Mae mentoriaid mewn ysgolion yn darparu cyngor a chynhaliaeth adeiladol, a chynigir, gydag ambell i eithriad, ystod briodol o brofiadau yn y dosbarth i hyfforddeion. Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, mae ansawdd profiadau hyfforddeion yn amrywio gormod rhwng ysgolion. Er enghraifft, nid yw digon o ysgolion uwchradd yn cynnig cyfleoedd i hyfforddeion addysgu ar y cyd gydag athrawon pwnc profiadol a brwdfrydig sy'n gwneud defnydd da o TGCh.

Er gwaetha y gwelliant parhaus yn ansawdd yr hyfforddiant yn y coleg ac yn yr ysgol dros y cylch arolygu, nid oes digon o hyfforddiant sy'n dda iawn.

Mae mentoriaid ysgol yn cael eu cynnwys yn fwy mewn hyfforddiant yn y coleg, yn enwedig wrth gyflwyno agweddau ar waith cwrs. Fodd bynnag, nid yw eu rôl wrth gyfrannu at y cynllunio, y rheoli, y monitro ac arfarnu gwaith yn y coleg yn ddigon cryf mewn nifer o bartneriaethau.

Mae cynllun a chynnwys pob cwrs HCA yn parhau'n dda ar y cyfan, a chyda'i gilydd maent yn darparu profiad hyfforddi cydlynus. Mae pob cwrs yn tanlinellu pwysigrwydd medrau allweddol llythrennedd, rhifedd a TGCh yn dda. Y prif ddiffyg o ran cynllunio'r hyfforddiant cynradd yn y coleg yw bod yr amser sydd ar gael ar gyfer cyrsiau rhagflas yn y pynciau di-graidd yn fyr, ac mewn rhai achosion, yn cyfyngu ar wybodaeth a dealltwriaeth yr hyfforddeion yn y pynciau hyn.

Mae pob darparwr yn parhau i ddarparu cynhaliaeth ac arweiniad da i ran fwyaf yr hyfforddeion ar eu cyrsiau.

Asesu

Mae asesiad gwaith hyfforddeion yn y coleg yn dda ar y cyfan yn mwyafrif y cyrsiau. Mae rhan fwyaf o diwtoriaid yn darparu adborth manwl ac adeiladol sy'n tanlinellu cryfderau a gwendidau hyfforddeion. Mewn rhai cyrsiau, mae tiwtoriaid yn gosod targedau clir i fyfyrwyr, gan olrhain pa mor dda y maent yn bodloni'r targedau. Ambell dro, nid yw'r meini prawf asesu'n cynnwys digon am ddilyniant disgwylidig, nac yn dangos beth yw perfformiad da neu dda iawn. Mae gan ran fwyaf y darparwyr systemau da ar gyfer asesu gwaith hyfforddeion, ond mewn rhai systemau, nid yw tiwtoriaid bob amser yn defnyddio gwybodaeth asesu'n dda i wella dysgu hyfforddeion. Mewn rhai cyrsiau, nid yw gwybodaeth o archwiliadau cychwynol o wybodaeth bwnc hyfforddeion yn adeiladu ar gyflawniad blaenorol, ac nid yw'n ddigon manwl i olrhain eu cynnydd yn y dyfodol.

Yn ystod hyfforddiant yn yr ysgol, mae amllder ac ansawdd yr adborth a roddir i hyfforddeion am eu haddysgu yn amrywio gormod rhwng ysgolion. Nid yw adborth bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni, ac ni fydd mentoriaid bob amser yn cysylltu'r targedau y maent yn eu gosod ar gyfer hyfforddeion â'r safonau ar gyfer statws athro cymwys.

Mae nifer fach o ddarparwyr wedi cyflwyno proffilio a hunan-arfarnu hyfforddeion. Mae hyn wedi annog hyfforddeion i osod targedau personol ar gyfer gwella. Nid yw darparwyr eraill wedi gwireddu'r mentrau hyn i'w llawn botensial eto.

Addysgu cyfrwng Cymraeg

Mae darparwyr yn cynnig cyrsiau gloywi iaith i hyfforddeion sy'n addysgu yn Gymraeg. Mae'r cyrsiau hyn o ansawdd da, ac yn cynnal datblygiad iaith hyfforddeion yn dda. Fodd bynnag, nid oes digon o gynhaliath pwnc penodol ar gyfer y myfyrwyr hyn bob amser. Mae pob cwrs sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn darparu lleoliadau i hyfforddeion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac maent yn darparu tiwtor sy'n siarad Cymraeg ar gyfer profiad ysgol. Nid yw nifer fach o hyfforddeion sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hannog a'u cynnal ddigon i alluogi iddynt hyfforddi i addysgu yn Gymraeg.

Mae pob darparwr yn sicrhau bod hyfforddiant ar gael i hyfforddeion di-Gymraeg ddysgu Cymraeg fel rhan o'u hyfforddiant cynradd. Mewn rhai cyrsiau israddedig, mae presenoldeb yn orfodol yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mae'r cyrsiau hyn yn arwain at wahanol lefelau, a bydd y rhan fwyaf o hyfforddeion yn eu mynychu'n rheolaidd. Gwna nifer o hyfforddeion gynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio Cymraeg wrth addysgu. Bydd yr hyfforddiant hwn yn aml yn cyfuno'n effeithiol addysgu Cymraeg gyda dealltwriaeth werthfawr o'r dulliau o addysgu ail iaith.

4. Ansawdd y staffio, yr adnoddau a'r adeiladau

Mae ansawdd y staffio, yr adnoddau dysgu a'r adeiladau yn dda ar y cyfan ymhlith rhan fwyaf y darparwyr. Mae gan diwtoriaid gymwysterau da ar y cyfan. Mae'r rheiny sydd â phrofiad o ddysgu diweddar neu sydd yn cynnal ymchwil yn ei ddefnyddio'n dda ar y cyfan i gyfoethogi'r hyfforddiant y maent yn ei gynnig. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n effeithiol yn eu haddysgu.

Mae gan diwtoriaid a hyfforddeion yn mwyafrif y darparwyr fynediad i ystod dda o adnoddau addysgu ac offer TGCh ddiweddar. Mae rhai darparwyr yn brin o offer cyfnod penodol neu bwnc penodol sydd ar gael mewn ysgolion ac o feddalwedd pwnc penodol. Mewn rhai achosion, mae hyn yn cyfyngu ar ddealltwriaeth hyfforddeion o sut i gynllunio ar gyfer defnyddio'r adnoddau hyn yn effeithiol yn eu haddysgu.

Mae ansawdd adeiladau'r darparwyr yn dda ar y cyfan. Mae gan adrannau cynradd yn arbennig arddangosiadau o ansawdd da sy'n dangos enghreifftiau da o waith tiwtoriaid a hyfforddeion. Mae'r arddangosiadau hyn yn aml yn adlewyrchu cyd-destun dwyieithog Cymru ac yn helpu i godi ymwybyddiaeth hyfforddeion o'r Cwricwlwm Cymreig.

Mae ansawdd yr adnoddau sydd ar gael mewn ysgolion yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, mae ansawdd ac argaeledd offer TGCh yn amrywio gormod rhwng ysgolion.

5. Dethol ac ansawdd hyfforddeion a dderbynnir

Mae'r recriwtio ar gyfer cyrsiau cynradd wedi bodloni targedau CCAUC yn ystod y cylch arolygu. Mae rhan fwyaf y darparwyr wedi datblygu ystod o strategaethau priodol i ddenu hyfforddeion at gyrsiau uwchradd yn enwedig. Mae darpariaeth y grantiau hyfforddi hefyd wedi cynnal recriwtio. Er hyn, mae'r nifer sy'n cofrestru ar gyfer rhai pynciau uwchradd wedi parhau yn is na'r ffigurau targed. Ni cheir cynrychiolaeth ddigonol ar gyrsiau cynradd ymhlith rhai grwpiau o hyfforddeion, gan gynnwys y rheiny sy'n siarad Cymraeg, y rheiny o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, a dynion.

Mae ansawdd yr hyfforddeion yn ystod y cylch arolygu wedi bod yn foddhaol o leiaf, ac mae gan ran fwyaf y darparwyr weithdrefnau effeithiol ar gyfer cyfweld a dethol. Fodd bynnag, nid yw rhai darparwyr yn cynnwys penaethiaid a mentoriaid o ysgolion partner ddigon yn y broses ddethol.

6. Rheoli ansawdd

Ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth

Ar y cyfan, mae gan reolaeth hyfforddiant addysgu cychwynnol nodweddion da, ond mae rhai diffygion yn parhau. Mae monitro mewnol ac allanol y gwaith yn y coleg yn dda ar y cyfan, ac mae rôl yr arholwyr allanol yn nodwedd gadarnhaol. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer arfarnu cyrsiau'n ystyried barn hyfforddeion, ond ychydig iawn o ddarparwyr sy'n cynnwys arsylwi uniongyrchol o sesiynau addysgu fel arf ar gyfer hunan-arfarnu. Mae tiwtoriaid cwrs yn paratoi cynlluniau gweithredu sy'n mynd i'r afael â gwendidau yn y ddarpariaeth, ac maent yn gosod targedau ar gyfer gwella. Yn aml, fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau gweithredu hyn yn ymgorffori digon o fesurau meintiol i gynorthwyo monitro ac arfarnu'r cynllun gweithredu, a nodi'r graddau y caiff targedau eu bodloni. Mae'r cynnydd wrth ddatblygu gosod targedau wedi bod yn araf ar y cyfan. Ychydig o'r colegau yn unig sy'n gwneud defnydd da o wybodaeth asesu i osod targedau ar gyfer cyrsiau cyfan neu ddefnyddio data recriwtio, data cwblhau neu ddata cyrchfan i lywio datblygiad cwrs.

Partneriaeth rhwng darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ac ysgolion

Mae darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon a'u hysgolion partner yn dangos ymrwymiad cryf i bartneriaeth, ac mae ganddynt berthynas waith dda. Yn ystod y cylch arolygu diwethaf, roedd ansawdd rheolaeth y partneriaethau hyn yn foddhaol o leiaf ym mhob cwrs, ond yn amrywio rhwng ac o fewn darparwyr. Yn yr arfer gorau, ceir trefniadau sydd wedi'u sefydlu'n dda ar gyfer gweithio ar y cyd a dealltwriaeth eglur o rolau a chyfrifoldebau priodol y rheiny sy'n gysylltiedig. Mae yna hefyd enghreifftiau o drefniadau da i sicrhau cymedroli safonau o fewn ysgolion a rhyngddynt. Yn yr arfer llai effeithiol, nid oes gan athrawon ddealltwriaeth ddigonol am y ddarpariaeth yn y coleg, ac maent yn ansicr ynglŷn â gofynion partneriaeth.

Mae yna gryn amrywiaeth yn y graddau y mae colegau'n darparu cynhaliath ar gyfer eu hysgolion partner. Ar hyn o bryd, nid yw hyfforddeion yn cael eu harsylwi ddigon ar y cyd gan athrawon dosbarth, mentoriaid a thiwtoriaid coleg. Nid yw ambell ddarparwr yn monitro ansawdd y lleoliadau yn ddigonol nac yn sicrhau bod hyfforddeion yn cael eu rhoi mewn ysgolion a fyddai'n bodloni eu hanghenion orau.

Ychydig iawn o ddarparwyr sy'n cynnwys eu hysgolion partner yn y gwaith cyffredinol o gynllunio, monitro ac arfarnu cyrsiau yn y coleg.

7. Y Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r cylch arolygu newydd

Fel rhan o'n gwaith ar gyfer 2001-2002, rydym wedi bod yn gweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru i lunio fframwaith arolygu cyffredin sy'n berthnasol i bob darparwr addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Roedd hyn yn golygu ymgynghori eang. Bu'r gwaith hwn yn amserol iawn i HCA, gan ei fod wedi digwydd ar ddiwedd cylch arolygu.

Yn 2001-2002, buom yn ymgynghori â darparwyr am y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Buom yn ymgynghori gyda nhw hefyd am y Llawlyfr Arweiniad ynglŷn â gwneud y Fframwaith Arolygu Cyffredin yn berthnasol i arolygiadau lleoliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon. Yn ystod y cyfnod hwn, ni chynhaliwyd unrhyw arolygiadau llawn o ddarparwyr HCA. Rydym wedi arfarnu'r arfer arolygu gorau yn systematig, ac wedi'i rannu ar draws pob darparwr HCA. Roedd nifer o'r arferion hyn eisoes yn rhan o'r cylch arolygu HCA diwethaf.

Nodweddion y cylch arolygu newydd

- Bydd y broses arolygu'n rhoi hyd yn oed mwy o bwyslais ar brofiadau a chyflawniadau dysgwyr;
- bydd arolygiadau'n rhoi pwyslais newydd ar hunan-asesu trwy ddefnyddio hunan-asesiad diweddaraf y darparwr fel y man cychwyn ar gyfer y broses arolygu;
- bydd arolygiadau'n parhau i gynnwys elfen o arfarnu cymheiriaid;
- bydd arolygiadau'n cynnwys darparwyr yn fwy gweithredol yn y broses, er enghraifft, trwy roi cyfle i ddarparwyr gael enwebai a fydd yn cysylltu â'r tîm arolygu;
- byddwn yn ehangu ein harfer o ofyn am adborth gan ddarparwyr am broses a chanlyniadau'r arolygiad;
- byddwn yn newid i gylch arolygu chwe blynedd; a
- byddwn yn adolygu hyd rhybudd arolygiad.

Y prif newid a wnaed i HCA yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin yw mwy o bwyslais ar hunan-asesu. Bydd pwyslais mwy eglur hefyd ar arolygu hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth a blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r ymgynghori am y Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r Arweiniad ar Arolygu HCA bellach wedi'i gwblhau. Mae fersiynau terfynol y dogfennau hyn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk).

8. Ymweliadau cyffredinol arolygwyr

Yn ystod 2001-2002, cynyddwyd nifer ymweliadau cyffredinol arolygwyr â sefydliadau HCA i gynnwys dau arolygwr ar gyfer pob diwrnod. Gwnaed hyn wrth ymateb i arfarnu cadarnhaol yr ymweliadau hyn gan y sector, ac er mwyn gallu casglu tystiolaeth ddigonol ar arferion yn y sector ar gyfer Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi. Canolbwyntiai'r materion sy'n codi o'r ymweliadau ar faterion penodol, ac fe'u harweiniwyd gan gofweinydd manwl. Nodir y prif faterion isod.

Recriwtio

Mae recriwtio'n galonogol ar gyfer y rhan fwyaf o gyrsiau TAR cynradd ac uwchradd. Mae hyn, o leiaf yn rhannol, i'w briodoli i'r grantiau hyfforddi newydd. Fodd bynnag, mae ambell ddarparwr yn bryderus fod nifer y ceisiadau am le ar rai cyrsiau BA (Uwchradd) yn gostwng. Ni chaiff yr hyfforddeion hyn grantiau hyfforddi.

Gallai darparwyr barhau i wneud mwy i recriwtio hyfforddeion o grwpiau ethnig neu grwpiau heb ddigon o gynrychiolaeth. Nid yw rhan fwyaf y darparwyr yn targedu recriwtio hyfforddeion o leiafrifoedd ethnig, hyfforddeion sy'n gallu siarad Cymraeg neu hyfforddeion gwrywaidd ar gyrsiau cynradd.

Datblygiad cwricwlwm

Mae tiwtoriaid coleg yn gwella cynnwys eu cyrsiau'n raddol. Bellach, maent yn treulio mwy o amser yn egluro i hyfforddeion sut i ddefnyddio gwybodaeth asesu a TGCh mewn addysgu. Ym mwyafrif y pynciau, mae hyfforddeion yn dysgu sut i hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig yn effeithiol a phwrpasol yn eu gwaith. Mae rhai darparwyr yn dal i fod yng nghyfnod cynnar datblygu agweddau ar y cwricwlwm wrth ymateb i flaenoriaethau a mentrau newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae ambell un yn dechrau addysgu am ddatblygiad cynaliadwy. Mae angen i'r rhan fwyaf o ddarparwyr wneud mwy wrth baratoi hyfforddeion i ddelio â thangyflawni ac anfodlonrwydd disgyblion.

Archwilio

Yn y pynciau craidd, mae tiwtoriaid yn archwilio gwybodaeth bwnc hyfforddeion yn drylwyr. Mewn lleiafrif bychan o gyrsiau, archwilir gwybodaeth hyfforddeion mewn pynciau di-graidd, ond yn gyffredinol, ambell diwtor yn unig mewn pynciau eraill fydd yn gwneud hyn.

Asesu

Mae systemau graddio'n amrywio rhwng ac ymhlith rhai darparwyr. Bydd rhai cyrsiau'n rhoi gradd gyffredinol i hyfforddeion. Mae hyn yn helpu tiwtoriaid i nodi pa mor dda mae hyfforddeion a chysiau yn cyflawni. Nid yw darparwyr bob amser yn defnyddio asesu'n dda i wella dysgu hyfforddeion. Ar rai cyrsiau, mae tiwtoriaid yn gosod targedau clir i hyfforddeion, gan olrhain i ba safon y maent yn bodloni'r targedau. Ni fydd mentoriaid bob amser yn cysylltu'r targedau y maent yn eu gosod i hyfforddeion â'r safonau ar gyfer statws athro cymwys. Mae hyfforddeion sy'n wynebu anawsterau yn cael cynhaliaeth ac arweiniad sydd wedi'u cynllunio'n dda i sicrhau SAC.

Proffiliau mynediad gyrfa

Mae rhan fwyaf y darparwyr yn ymwybodol o'r angen i wella ansawdd Proffiliau Mynediad Gyrfa. Mae'r rhain yn aml yn disgrifio cryfderau hyfforddeion yn dda, ond nid y meysydd penodol y mae angen mynd i'r afael â hwy. O ganlyniad, mae ysgolion yn ei gweld yn anodd gosod targedau clir i athrawon sydd newydd gymhwyso ar gyfer gwella'r meysydd hyn.

Staffio

Mae darparwyr yn mynegi bod llai o athrawon yn ystyried gyrfa mewn hyfforddi athrawon. Maent yn mynegi pryder cynyddol wrth recriwtio tiwtoriaid newydd ac wrth secondio athrawon o ysgolion. Mae gan rai darparwyr ormod o athrawon rhan-amser. Golyga hyn fod yna faich ychwanegol sy'n gostwng nifer y staff amser llawn. Mae rhai darparwyr yn brin o staff i ddatblygu medrau dwyieithog hyfforddeion.

Sicrhau ansawdd

Mae darparwyr wedi bod yn araf wrth gynnwys arsylwi uniongyrchol o sesiynau addysgu fel arf ar gyfer hunan-arfarnu. Yn rhan fwyaf y ddarpariaeth, mae arsylwi cymheiriaid yn parhau i fod yng nghyfnod cynnar ei ddatblygiad. Mae'r cynnydd o ran gwneud defnydd gwell o wybodaeth asesu i osod targedau ar gyfer cyrsiau cyfan, yn parhau i fod yn araf mewn rhai darparwyr. Ychydig iawn sy'n gwneud digon i ddadansoddi data recriwtio, cwblhau a chyrchfan fel modd o lywio datblygiad cwrs.

Cydweithredu rhwng darparwyr

Mae darparwyr bellach yn cydweithio'n amlach, ond nid ydynt yn cydweithredu ddigon. Er enghraifft, mae gormod o amrywiaeth rhwng darparwyr o ran y disgwyliadau y maent yn eu gosod ar ysgolion a'u systemau asesu. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ysgolion sy'n gweithio â nifer o ddarparwyr.

Llwybrau hyblyg

Mae ambell ddarparwr yn dechrau cynnig llwybrau hyblyg i addysgu. Ar y cyfan fodd bynnag, maent wedi bod yn araf yn cefnogi'r mentrau hyn.

Datblygiad proffesiynol parhaus

Cynigir ystod o gyrsiau wedi'u hachredu ar gyfer athrawon sy'n gweithio, ar lefel Meistr gan amlaf. Mae darparwyr yn mynegi y gallai'r twf diweddar yn y niferoedd ar rai o'r cyrsiau hyn, er eu bod yn parhau'n fach, wedi digwydd o ganlyniad i gyflwyno rheoli perfformiad ac asesiad trothwy. Mae rhan fwyaf y darparwyr yn cynnig gostyngiadau ariannol i staff o ysgolion partner sy'n astudio ar gyfer y cymwysterau hyn. Mae rhai mentoriaid yn yr ysgol wedi dechrau'r cyrsiau hyn o ganlyniad uniongyrchol i'r cymhelliad hwn. Ychydig iawn o ddarparwyr sydd, ar hyn o bryd, yn cynnig dysgu o bell neu ddysgu ar-lein fel dewis ar gyfer y cyrsiau hyn. Ar hyn o bryd, mae'r cydweithredu rhwng darparwyr ac AALLau yn ystod cyfnod cynnar ei ddatblygiad.

9. Argymhellion

Cafwyd graddau helaeth o gysondeb yn y prif negeseuon yn yr adroddiadau arolygiad llawn ac yn yr adroddiadau arolwg a gynhyrchwyd yn ystod 1996-2002. Cefnogir y negeseuon hyn hefyd gan ganfyddiadau ymweliadau cyffredinol arolygwyr. O ystyried pob un o'r uchod, y materion allweddol i ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yw cydnabod tra bod ansawdd y ddarpariaeth yn dda ar y cyfan, gellid gwneud mwy sy'n rhagorol. Mae angen i ddarparwyr:

- nodi'r hyn sy'n rhagorol yn eu hyfforddiant a gwneud yr hyn y maent yn ei wneud yn dda hyd yn oed yn well;
- cryfhau eu cydweithredu â darparwyr eraill er mwyn rhannu arfer dda, lleihau dyblygu a datblygu arferion a disgwyliadau cyffredin;
- cynnwys mentoriaid ac ysgolion partner yn fwy wrth gynllunio, rheoli, monitro ac arfarnu cyrsiau;
- lleihau'r amrywiaeth yn ansawdd hyfforddiant yn y gwaith trwy wella'r gynhaliadaeth a'r adborth a roddir i fentoriaid ac ysgolion partner;
- gwneud gwell defnydd o wybodaeth asesu a data eraill i wella gosod targedau a llywio datblygiad cyrsiau;
- ehangu mynediad i hyfforddiant athrawon i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli; a
- chryfhau eu partneriaeth ag AALLau i wella datblygiad proffesiynol parhaus athrawon.